

WILLIAM(S), ROBERT (1744 - 1815), bardd, amaethwr

Enw: Robert William (S)
Dyddiad geni: 1744
Dyddiad marw: 1815
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd, amaethwr
Maes gweithgaredd: Natur ac Amaethyddiaeth; Barddoniaeth
Awdur: Robert Thomas Jenkins

y Pandy Isaf, Tre Rhiwedog gerllaw'r Bala; ganwyd (yn ôl carreg ei fedd) yn 1744. Ni wyddys odid ddim o'i hanes. Bu'n ddisgybl barddol i [Rolant Huw](#), ac yn athro yn ei dro i ' [Ioan Tegid](#) ' (John Jones, 1792 - 1852), a beirdd eraill. Canodd farwnad i [Risiart Morys](#) o Fôn, a ' Chywydd y Farn ' a ystyrir gan [Rolant Huw](#) 'n deilwng i'w gymharu â chywyddau mwy adnabyddus [Goronwy Owain](#) a [William Wynn](#) o Langynhafal ar yr un testun. Canodd hefyd gywydd i ' [Ddafydd Ionawr](#),' a bu'n cyfnewid englynion â ' [Thwm o'r Nant](#).' Ond marwnadau lleol a charolau a 'cherddi clwb' oedd y rhan fwyaf o'i waith; y mae cyfrol mewn llawysgrif ohonynt yn y Llyfrgell Genedlaethol. Er na sonnir dim amdano yng nghofnodion y capel Methodistiaid Calfinaidd agosaf ato (Llwyneinion), eto yr oedd yn troi o gwmpas crefydd: yn canmol Cymdeithas y Beiblau (y mae un o'i linellau ar ei gwaith hi wedi hen dyfu'n ddihareb), ac yn mawrygu [Peter Williams](#). Ei farwnad iddo ef, yn wir, yw'r unig beth o'i waith, hyd y gwyddys, a gyhoeddodd (Croesoswallt, 1797 - gweler y *Traethodydd*, 1944, 60-1). Argraffwyd gwaith arall o'i eiddo gan [O. M. Edwards](#) (*Cymru Fydd*, iv, 41-4; *Cymru*, ii, 210-3; *Beirdd y Bala*, 40-8, yng ' Nghyfres y Fil') - o ran hynny i [Owen Edwards](#) y mae ein hadnabyddiaeth ohono, a'n gwybodaeth amdano, bron i gyd yn ddyledus. Bu farw yn Awst 1815 - claddwyd ef ar 1 Medi, yn Llanfor. Yr oedd [William Edwards](#) yr emynydd (1773 - 1853), yn nai fab brawd ac yn ddisgybl barddol iddo.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Gweler hefyd *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600*, ll, i, 56-8

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734570](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

